

## Cyfarfod Newid Hinsawdd y Sector Gwirfoddol

14eg Mehefin 2021, 10am tan 11.30am

Cofnodion

### Mynychwyr

- Gary Mitchell, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol
- Karen Balmer, Groundwork Gogledd Cymru
- Julia Korn, Pont
- Rebecca Brough, Y Cerddwyr
- Peter Williams, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru
- Rachel Burr, Cymdeithas Cludiant Cymunedol
- David Williams, Cyngor Torfaen
- Rhiannon Hardiman, Living Streets
- Barbara Davies Quy, Maint Cymru
- Kate Hamilton, Adfywio Cymru
- Jocelle Lovell, Canolfan Cydweithredol Cymru
- Ben Lloyd, CGGC
- Anna Nicholl, CGGC
- David Cook, CGGC

### Trafodaeth am y portffolio Newid Hinsawdd newydd

Mae'r tabl hwn yn dangos y meysydd polisi yr awgrymodd aelodau'r grŵp y gellir eu codi mewn cyfarfod â'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog yn y dyfodol.

Pwnc	Cynrychiolydd	Rhagor o fanylion
Deddf Aer Glân	Rhiannon	Pryder na chaiff y Ddeddf Aer Glân ei gosod tan fis Rhagfyr 2022
Datgarboneiddio trafndiaeth y sector gwirfoddol	Rachel	Dylai isadeiledd ar gyfer gwefru cerbydau trydan fod yn uchel ar yr agenda
Sut y gall Cymru osgoi cyfrannu at ddatgoedwigo tramor	Barbara	Cysylltiadau â bwyd a ffermio
Cronfeydd benthyciadau cylchdrool ar gyfer tai a arweinir gan y gymuned	Jocelle	Papur eisoes wedi'i gyflwyno i'r Gweinidog yn ei rôl flaenorol
Newid hinsawdd a'r sector gwirfoddol	Anna	Papur gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru a Cytun eisoes wedi'i baratoi

Diwygio mynediad i gefn gwlad	Rebecca	Ymddangos bod mynediad i gefn gwlad yn cysylltu ar draws nifer o bortffolios
Sut y mae Cymru'r Dyfodol wedi'i wreiddio'n rhan o gynlluniau datblygu strategol	Gary	Pryder y gallai gwaith yr Economi Sylfaenol a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gael ei golli
Hawl i Brynu Cymunedol	Jocelle	Gallai hefyd ddod o dan y portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol
Strategaeth ddigidol	Jocelle	Mae strategaeth ddigidol Llywodraeth Cymru yn allweddol ar draws nifer o bortffolios
Hawliau datblygu garddwriaethol a ganiateir bach yn erbyn mawr	Gary	Nid oes tegwch i bawb
Y system fwyd a chysylltiadau â newid hinsawdd	Gary	Gallai Cynghair Polisi Bwyd Cymru arwain ar bapur ar hyn gan ganolbwyntio ar hinsawdd
Swyddi gwyrdd	Rocio	Dylid datblygu swyddi gwyrdd mewn ffordd sy'n lleihau'r bwloch cyflog rhwng y rhywiau
Yr amgylchedd (gan gynnwys tai) ac iechyd meddwl	Rocio	Angen mynd i'r afael ag anghydraddoldeb er mwyn helpu pobl i gael mynediad at amgylchedd sydd o fudd i iechyd meddwl

*Trafodaethau eraill:*

- Y posibilrwydd o gyfarfod â'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog ar wahân gan ystyried maint y portffolios.
- Pwysigrwydd swyddi gwyrdd ar gyfer mentrau cymdeithasol.
- Dylai'r grŵp ystyried polisi trafndiaeth yn gyfnodol.
- Mae cyfle i dynnu sylw at feysydd rydyn ni'n meddwl y dylent fod yn Ddangosyddion Perfformiad Allweddol.
- Mae angen i ni sicrhau bod byd natur/bywyd gwyllt wedi'u cynrychioli ar y grŵp.
- Cytunodd y grŵp fod angen canolbwyntio ar tua phum pwynt dros y blynyddoedd nesaf. Gellir dod â nifer o faterion ynghyd o dan themâu trosfwaol – e.e. gwyrdd ac adferiad teg, diwygio cynllunio, ac ati.

- Agenda'r cyfarfod nesaf i gynnwys eitemau ar flaenoriaethau'r Gweinidog ynghyd â phenderfyniadau ar ddwy eitem arall i'w cymryd ymlaen i Gyfarfodydd Gweinidogol y dyfodol.

**Camau Gweithredu:**

- *CGGC i rannu dogfen sy'n rhestru aelodau o bob grŵp portffolio a gofyn a hoffai unrhyw un ymuno â grŵp nad ydynt eisoes yn gynrychiolydd arno.*
- *CGGC i anfon rhestr o gyfrifoldebau gwahanol y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog at aelodau'r grŵp pan fydd hon ar gael.*
- *Jocelle i ddatblygu papur ynghylch hawl i brynu cymunedol.*
- *Gary/Cynghrair Polisi Bwyd Cymru i weithio ar bapur sefyllfa i'w rannu â'r grŵp.*
- *Susie Ventris-Field i adrodd i'r grŵp ar COP26.*
- *Jocelle/CGGC i ddod â chynigion i'r cyfarfod nesaf ar gyfer cynyddu gwaith ar strategaeth ddigidol a newid hinsawdd.*
- *CGGC i ofyn i Lywodraeth Cymru beth yw prif flaenoriaethau'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog.*
- *CGGC i drefnu'r cyfarfod grŵp nesaf ar gyfer mis Medi 2021 i gulhau'r syniadau a amlinellwyd yn y tabl uchod.*